Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Ddwyrain Cymru | South East Wales Corporate Joint Committee

Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol

11.00am ar dydd Llun, 17 Tachwedd 2025, drwy Microsoft Teams

Cofnodion

Aelodau		
Enw	**Swydd**	**Awdurdod**
Y Cynghorydd Andrew Morgan	Cadeirydd	Aelod o'r CJC
Y Cynghorydd Lis Burnett	Dirprwy Gadeirydd	Cyngor Bro Morgannwg
Y Cynghorydd Ann Crimmings	Aelod	CBS Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd Neelo Farr	Aelod	CBS Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cynghorydd Nigel George	Aelod	CBS Caerffili
Y Cynghorydd Rhian Howells	Aelod	Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cynghorydd Catrin Maby	Aelod	Cyngor Sir Fynwy
Y Cynghorydd John Morgan	Aelod	CBS Blaenau Gwent
Y Cynghorydd Amanda Owen	Aelod	CBS Torfaen
Julian Stedman	Aelod Cyfetholedig Heb Bleidlais	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Swyddogion Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR)		
Kellie Beirne	Prif Weithredwr	
Colan Mehaffey	Cyfarwyddwr Strategol Polisi, Effaith a Phartneriaethau	
Clare Cameron	Rheolwr Trafnidiaeth ac Ynni	
Oliver Kittridge	Cynlluniwr Trafnidiaeth Rhanbarthol	
Cliona May	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd	
Jonathan Deacon	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd	

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Bronwen Brooks a'r Cynghorydd Dan De'Ath.

2. Datganiadau o Fuddiannau

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau gan Aelodau neu swyddogion.

3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

3.1 Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2025 fel cofnod cywir.

4. Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft

4.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan Clare Cameron. Dywedodd fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg i'r Is-bwyllgor o'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP), gan gynnwys y cais am gyllid gan Awdurdodau Lleol i Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27 i gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) dros ei oes pum mlynedd. Gofynnodd hefyd i'r Is-bwyllgor ofyn i Gyd-bwyllgor Corfforaethol (CJC) De-ddwyrain Cymru gymeradwyo'r RTDP i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo a'i ariannu, o fewn yr amserlen a ragnodir gan Lywodraeth Cymru.

4.2 Cyfeiriodd Ms Cameron at yr argymhellion yn yr adroddiad a oedd yn gofyn i'r Is-bwyllgor gytuno ar y senarios drafft a'u hargymell i'r CJC i'w cymeradwyo yn eu cyfarfod ar 24 Tachwedd, ceisiodd y cytundeb hwnnw i rannu fersiwn ddrafft yr RTDP gyda LlC ar 21 Tachwedd 2025 i gael sylwadau, cyn y cyflwyniad terfynol ddiwedd mis Ionawr 2026, a gofynnodd i'r CJC ddirprwyo awdurdod i Gadeiryddion yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r CJC i gymeradwyo gwelliannau terfynol, gan aros am y cyflwyniad terfynol i LlC ddiwedd mis Ionawr 2026.

4.3 Rhoddodd Ms Cameron grynodeb o'r ddeddfwriaeth yn yr adroddiad ac yn y cyfarfod, a oedd wedi arwain at y gofyniad i CJC gynhyrchu RTP, a bod gan yr awdurdodau lleol ddyletswydd i gyflawni'r RTP. Roedd yr RTP wedi'i gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth (CSNWT) ym mis Medi 2025, a disgwylid y byddai'r awdurdodau lleol ym mhob rhanbarth CJC yn cydweithio ar un cynllun cyflawni ar y cyd, sef yr RTDP, gyda rhestr flaenoriaeth o brosiectau a chynlluniau. Roedd yr RTDP yn rhestr arfaethedig o ymyriadau a fyddai'n cyflawni amcanion yr RTP, a helpu i gyflawni blaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru LlC ar y lefel ranbarthol.

4.4 Soniodd Ms Cameron hefyd fod y CSNWT wedi anfon llythyr at y CJC ar 17 Hydref 2025, lle nododd y gallai LlC ariannu prosiectau o bwys cenedlaethol ar wahân (mewn partneriaeth â'r CJC), lle bo'n fforddiadwy, ac ar gyfer 2026-27, y byddai'n canolbwyntio ar geisio clustnodi cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig ag argymhellion Burns Roedd hefyd wedi gofyn i'r CJC nodi'r cynlluniau penodol na fyddent yn fforddiadwy yn y flwyddyn gyntaf, a hefyd nodi cynlluniau ychwanegol y byddai modd eu cyflawni pe bai cyllid ychwanegol ar gael dros y 3 blynedd nesaf. Cadarnhaodd Ms Cameron fod y CJC yn gweithio ar sail derbyn y dyraniad cyfalaf dangosol cyfredol o £42.5m ym Mlwyddyn 1, a hefyd yn edrych ar senario sy'n cynnwys gorwariant o 10% i ganiatáu ar gyfer unrhyw lithriad yn y rhaglen yn ystod y flwyddyn, ac ar gyfer unrhyw danwariant o gyllideb LlC yn 2026/27. Ychwanegodd Ms Cameron fod dyraniad refeniw ychwanegol wedi'i nodi ar gyfer diogelwch ffyrdd a newid ymddygiad o tua £700k.

4.5 Tynnodd Ms Cameron sylw'r Aelodau hefyd at y gwaith cydweithredol a oedd wedi'i wneud gyda'r Cynghorau Cyfansoddol ers 2024, gan gynnwys wrth baratoi'r RTDP. Cynhaliwyd nifer sylweddol o weithdai datblygu i sicrhau bod aliniad ar draws y Rhanbarth. Eglurodd mai dim ond cynlluniau i'w cyflawni gan Awdurdodau Lleol yr oedd yr RTDP yn eu cynnwys, ond ei fod hefyd yn ofynnol ystyried dull integredig o ymdrin â'r rhwydwaith trafnidiaeth. Ystyriodd ac fe'i datblygwyd yn unol â'r cynlluniau hynny yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTDP), yr RTP eraill yng Nghymru, ac ystyriodd hefyd flaenoriaethau rhwydwaith y

rheilffyrdd, gan ystyried yn benodol ddyraniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant i Gymru a fyddai'n cefnogi datblygiad pellach Llinellau Craidd y Cymoedd ac agweddau ar argymhellion Comisiwn Burns. Dywedodd Ms Cameron fod y tîm hefyd wedi ystyried blaenoriaethau Bwrdd Rheilffyrdd Cymru a'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.

4.6 Aethpwyd â'r aelodau drwy'r 3 senario a gyflwynwyd mewn perthynas â'r RTDP. Yn ogystal â Senario 1 gyda'r dyraniad cyfalaf dangosol o £42.5m; roedd Senario 2 yn caniatáu gorwariant o 10% i ganiatáu ar gyfer unrhyw lithriad yn y rhaglen yn ystod y flwyddyn, ac ar gyfer unrhyw danwariant mewn mannau eraill; ac roedd Senario 3 yn ystyried cais CSNWT i nodi prosiectau pellach y gellid eu cyflawni o fewn y 3 blynedd nesaf, pe bai cyllid pellach ar gael ar gyfer y cyfnod hwn.

4.7 Eglurwyd yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r RTDP. Ar ôl rhannu fersiwn ddrafft yr RTDP gyda Llywodraeth Cymru erbyn 21 Tachwedd 2025, byddai Llywodraeth Cymru yn ymateb gyda sylwadau erbyn 19 Rhagfyr 2025. Roedd yn ofynnol i'r CJC gyflwyno'r cynigion ffurfiol i LlC ddiwedd mis Ionawr 2026. Disgwylid y byddai LlC yn dyfarnu cyllid yn ffurfiol ym mis Mawrth 2026.

4.8 Ceisiwyd cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch yr eitem hon. Argymhellodd fod y prif adroddiad yn hygyrch fel dogfen gyhoeddus. Esboniodd y broses a'r dull cyffredinol, ond ni atgynhyrchodd y rhestrau cynlluniau manwl a nodwyd yn Atodiadau 1-3 i'r adroddiad. Roedd modd dosbarthu'r rhaglen fanwl a'r proffil ariannu a gynhwyswyd yn y 3 senario yn gyfreithlon fel rhai eithriedig ar y sail y byddai datgelu cynnar o bosib yn rhagfarnu penderfyniadau cyllideb Gweinidogol a thrafodaethau'r CJC â Llywodraeth Cymru. Gofynnodd LlC i'r wybodaeth hon beidio â bod yn y parth cyhoeddus ar yr adeg hon, gan aros am eu hadolygiadau cyllido.

4.9 Er mwyn trafod y 3 senario yn yr atodiadau i'r adroddiad, **PENDERFYNODD** yr Is-bwyllgor ofyn i'r cyhoedd a'r wasg adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr agwedd hon ar y busnes, oherwydd bod gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn debygol o gael ei gwneud yn hysbys.

4.10 Yn dilyn trafodaeth ar yr RTDP a phrosiectau penodol, cytunwyd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ôl mewn sesiwn gyhoeddus cyn ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Howells yn y sesiwn gyhoeddus y byddai'n pleidleisio dros yr argymhellion yn yr adroddiad, ond pwysleisiodd fod cefnogaeth Casnewydd i'r argymhellion yn seiliedig ar dderbyn eglurder pellach ar gynlluniau ariannu hirdymor LlC, gan gynnwys ar gyfer prosiectau Burns a gydnabyddir yn genedlaethol.

4.11 **PENDERFYNWYD** bod yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol yn:

1) Cytuno ar y senarios RTDP drafft, a'u hargymell i'r CJC i'w cymeradwyo;
2) Cytuno i rannu fersiwn ddrafft yr RTDP LlC ar 21 Tachwedd 2025 i gael sylwadau, cyn y cyflwyniad terfynol ddiwedd mis Ionawr 2026; ac,
3) Yn dirprwyo awdurdod SEWCJC i Gadeiryddion yr RTSC a'r CJC i gymeradwyo newidiadau terfynol, gan aros am gyflwyniad terfynol i LlC ddiwedd mis Ionawr 2026.

5. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Nodwyd bod cyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer 15 Ionawr 2026.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am